**Sesiwn 2000-2001 Rhif 30**

# PAPURAU BUSNES

## DYDD IAU, 9 TACHWEDD 2000

## RHAN 1 – ADRAN A

## AGENDA

**Bydd y Cyfarfod yn dechrau am 9.05am**

**Cwestiynau i Jenny Randerson, y Gweinidog dros Ddiwylliant a Chwaraeon** (15 munud)
Mae rhestr o'r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe'r Siambr)

**Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig** (15 munud)
Mae rhestr o'r Cwestiynau Llafar ar y Fewnrwyd (a Gwe'r Siambr)

**Cymeradwyo Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000**
*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Hydref 2000.

*Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

(a) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau ar y Gorchymyn drafft, Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion (Cylch Gwaith) (Cymru) 2000 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Hydref 2000.

(b) yn cymeradwyo gwneud y Gorchymyn yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Hydref 2000

**Dadl ar Ddogfen Raglennu Sengl Amcan 2**
Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:

- Yn nodi gyda chymeradwyaeth y Ddogfen Raglennu Sengl, y cytunodd Partneriaeth Dwyrain Cymru a'r Comisiwn Ewropeaidd arni, ar gyfer ardaloedd Amcan 2 a'r Rhaglen Drosiannol yn y Dwyrain, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Tachwedd 2000.
- Yn galw ar y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd, gyda chytundeb y Bartneriaeth, i

ychwanegu unrhyw destun ychwanegol neu wneud unrhyw newidiadau testunol yn ôl yr angen, i fodloni'r gofynion technegol sydd eu hangen i sicrhau bod y ddogfen yn cael cymeradwyaeth ffurfiol y Comisiwn Ewropeaidd cyn gynted â phosibl.

***Mae'r gwelliannau canlynol wedi eu cyflwyno:***

*Yn unol â'r canllawiau ar Grwpio, Dewis a Gwrthod Gwelliannau, mae'r Llywydd wedi penderfynu grwpio'r gwelliannau fel a ganlyn at ddibenion trafodaeth - ond bydd y pleidleisiau yn cael eu cymryd yn unigol*.

**1. Alun Cairns (Gorllewin De Cymru);**

**Ychwanegu at ddiwedd y cynnig:**

- Yn mynegi pryder y bydd gweithredu'r rhaglen Amcan 2 yn cael ei danseilio gan raglenni eraill y Gronfa Strwythurol ac yn galw am i'r holl bartneriaid roi'r cymorth angenrheidiol, yn enwedig ar gyfer y sector preifat.

**2. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);**

**Ychwanegu at ddiwedd y cynnig fel pwynt bwled newydd**

- Yn cymeradwyo'r gydnabyddiaeth yn y Ddogfen Raglennu Sengl y gallai twf economaidd heb ei gynllunio gael effaith amgylcheddol negyddol, ac yn annog ymrwymiad digonol i ddatblygiadau fel: cynlluniau ynni adnewyddadwy cynaliadwy lleol; cyfathrebu band eang; ailgylchu gwastraff a hwyluso gallu'r cyhoedd i fanteisio ar drafnidiaeth gyhoeddus, i sicrhau cyfuniad o dwf economaidd cynaliadwy ac effaith amgylcheddol gadarnhaol.

**3. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);**

**Ychwanegu at ddiwedd y cynnig fel pwynt bwled newydd**

- Yn galw ar y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd i weithredu ar gais y Comisiwn Ewropeaidd, fel a gynhwysir yn ei ymateb i'r Dogfennau Rhaglennu Sengl drafft, i fabwysiadu targedau penodol ar gyfer Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu;

**4. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);**

**Ychwanegu at ddiwedd y cynnig fel pwynt bwled newydd**

- Yn annog Llywodraeth Glymblaid Cymru i sefydlu Partneriaeth Genedlaethol i gyd-drefnu'r polisïau gwledig a gynhwysir ym Mlaenoriaeth 5 o'r Rhaglen Amcan 1, Blaenoriaeth 2 o Raglen Amcan 2; y Cynllun Datblygu Gwledig a Menter Gymunedol LEADER+;

**5. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);**

**Ychwanegu at ddiwedd y cynnig fel pwynt bwled newydd**

- Yn cymeradwyo'r bwriad i rannu cyfrifoldeb rhwng Cynlluniau Gweithredu Rhanbarthol a Lleol yn y Rhaglen Amcan 2 ac yn gresynu'r methiant i sicrhau'r cyfryw raniad clir ar draws yr ystod gyfan o'r Rhaglenni Cronfa Strwythurol Ewropeaidd yng Nghymru;

**6. Phil Williams (Dwyrain De Cymru);**

**Ychwanegu at ddiwedd y cynnig fel pwynt bwled newydd**

- Yn cydnabod bod y cyllid ychwanegol a neilltuwyd yn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant i gwmpasu Grantiau Ewropeaidd ar gyfer y Cronfeydd Strwythurol a'r Mentrau Cymunedol yn golygu cynnydd graddol yn y gwir wariant ac yn annog Llywodraeth Glymblaid Cymru i bwyso ar y Trysorlys i gadarnhau petai'r gwariant ar brosiectau gwerth chweil yn cynyddu'n gynt na'r hyn a ragwelwyd yn yr Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, y bydd cyllid ychwanegol yn cael ei neilltuo.

**Dadl Fer:** (i bara am 30 munud)
**Helen Mary Jones (Llanelli); Cyfrifiad a Hunaniaeth**

**Disgwylir i'r cyfarfod ddod i ben erbyn 12.35pm**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 14 Tachwedd 2000**

**J W Lloyd**

**Clerc y Cynulliad**